## Sut y bydd eraill yn gwybod eich bod yn awtistig?

Bydd y freichled ddim yn datgan eich bod yn awtistig, ond byddy llun a’r cerdyn yn dangos hynny. Mae ar bob dull batrwm unigryw ar ffurf ‘A’ fel y gwelir isod:

Rydyn ni wedi hyrwyddo’r patrwm hwn a rhoi gwybodaeth am awtistiaeth i amryw fusnesau ar y stryd fawr, mudiadau cymunedol a chanolfannau hamdden. Efallai y bydd pobl yn gwybod bod y sawl sy’ngwisgo’r freichled yn awtistig.

Efallai y bydd ystyr y patrwm yn hysbys i rai pobl eraill, hefyd. Felly, os nad ydych chi am i neb wybod eich bod yn awtistig, peidiwch â’i wisgo.

AwtistiaethCymru.org
AutismWales.org

CLILC • WLGA

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Llywodraeth Cymru Welsh Government

## GWYBODAETH BELLACH

I weld y wybodaeth yr ydym wedi’i chyflwyno i fusnesau a sefydliadau ynghyd â rhagor o adnoddau cefnogi, ewch i:

AwtistiaethCymru.org

neu anfonwch e-bost at:

AwtistiaethCymru@WLGA.gov.uk

# WELI DI FI?

## Gwybodaeth i Oedolion Awtistig

Mae'r daflenhon yn esboniocynllun 'Weli di fi?' i bobl awtistig.

## Pam ein bod wedi datblygu'r cynllun hwn?

Dywedodd sawl oedolyn awtistig ei bod nhw'n ei gweld hi'n anodd defnyddio busnesau ar y stryd fawr a gweithgareddau cymunedol, ac yn aml, dydi staff y gwasanaethau hyn ddim yn deall eu anghenion.

Awgrymwyd y dylem sefydlu trefn lle y byddaimodd i oedolion roi gwybod i bobl eu bod nhw'n awtistig, a bod hynny'n cysylltu â'n gwaith o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o awtistiaeth.

Doedden ni ddim yn siŵr a fyddai hynny'n dderbyniol i oedolion, felly dyma ni'n cynnal arolwg ac mae'r canlyniadau yn dangos y byddai rhanfwyaf o oedolion awtistig yn croesawu'r drefn hon.

## Sut y gallwch ddangos i eraill eich bod yn awtistig

Rydym wedi darparu 3 opsiwn, gallwch ddewis i beidio â'u defnyddio o gwbl, neu eu defnyddio i gyd neu rai ohonyn nhw:

- breichled
- cerdyn plastig
- delwedd ar gyfer eich ffôn symudol

Gan nad yw'r cynllun yn orfodol,does dim gofyn i ddefnyddio'r dulliau adnabod hyn. Os nad ydych chi am i neb wybod eich bod yn awtistig, peidiwch â'u defnyddio.
defnyddio.

## Sut y byddwch yn gwybod os yw sefydliad yn rhan o'r cynllun?

Bydd gan fusnesau a sefydliadau sticer i fyny yn y ffenestr gyda'r patrwm hwn i ddynodi fod ganddynt ymwybyddiaeth o awtistiaeth.

## Yr hyn y mae'r cynllun yn ei gynnig

Mae'r cynllun yn codi ymwybyddiaeth am awtistiaeth ymysg nifer o sefydliadau ac yn galluogi pobl i ddangos i eraill eu bod nhw'n awtistig.

Fydd dim modd mynnu pris gostyngol nac unrhyw fuddion eraill trwy'r cynllun.

## Costau

Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r cynllun ac, felly, mae'n rhad ac am ddim i chi.